# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Rhagfyr 3ydd 2024 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Alwyn Jones (is-gadeirydd), Gwenda Evans, Bethan Thomas, Rita Jones, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Gary Thomas, Maldwyn Jones a'r clerc.
Ymddiheuriadau - Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Iolo Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Tachwedd 5ed 2024) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Lloches bws newydd i Lanfor.

## iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.
i) Arolwg Cymuned.
ii) Penderfyniad Pwyllgor Craffu Cymunedau – Cynllunio a Chymunedau Cymraeg.

b) Un Llais Cymru
i) Taflen '10 Peth Pwysig i'w Gwneud'.
ii) Canllawiau Digidol

c) Amrywiol.
i) Trafnidiaeth Cymru – digwyddiadau ymgysylltu am y gwasanaeth T3/T3C.
ii) Traffic Cymru – Hysbysiad o waith ar yr A494 Hengwm ym mis Tachwedd.
iii) Arolwg Cymunedol Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol.
iv) Neges gan Liz Saville Roberts AS.
v) Heddlu Gogledd Cymru – Dweud eich dweud ar gyllid plismona.

## v) Ceisiadau Cynllunio.

C24/0868/04/LL – Codi estyniad i adeilad amaethyddol er mwyn darparu to dros fuarth a thomen dail. Tyn Y Fron, Glanrafon.

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.**

## vi) Materion Ariannol.

a) Llywodraeth Cymru.
i) Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2025-26.

b) Archwilio Cymru – Cwblhau archwiliad 2023-24
**Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir a fod dim materion yn achosi pryder iddynt. Er hyny, tynnwyd sylw'r Cyngor i un anfoneb lle nad oedd y rhif TAW cyflawn wedi ei gyflwyno arno a chynghorwyd i gael y rhif cywir gan y cyflenwr. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y mannau perthnasol.**

c) Adolygu cyflog a chostau'r clerc.
Cytunwyd i dderbyn argymellion Un Llais Cymru ynglŷn â'r nifer o oriau a'r gyfradd cyflog i'r clerc a'i mabwysiadu o fis Ebrill 2025 ymlaen.

ch) Cyllideb a Praesept 2025/26.
**i) Gwaith torri glaswellt y mynwentydd – yn dilyn y gwaith clirio ym mynwent Llanfor cafwyd cais gan y contractwr i ychwanegu toriad ychwanegol i'r cytundeb presennol er mwyn ei gadw'n daclus. Cymeradwywyd.**

**ii) Fel y trafodwyd yn flaenorol cytunwyd i ddefnyddio peth o'r arian tu cefn ar gyfer torri'r coed ym mynwent Frongoch gan fod eu cyflwr yn dirywio a tywydd garw yn fwy rheolaidd. Gofynnwyd i'r clerc ofyn i'r contractwr gyfarfod gyda'r cynghorwyr i drafod y gwaith.**
**iii) Cytunwyd i ychwanegu arian ar gyfer cyflenwi nwyddau i'r difibs a chynyddu'r arian ar gyfer yr yswiriant, gwefan, cyflog y clerc, tal aelodaeth Un Llais Cymru a'r gost o dorri glaswellt y mynwentydd. Cytunwyd i leihau'r gwariant ar gyfer costau banc, ffioedd archwilio (cynyddwyd llynedd ar gyfer yr archwiliad llawn eleni) a chynnal a chadw asedau. Amcangyfrif y bydd £950 o ad-daliad TAW a £75 o logau banc.**
**iv) Gyda'r costau ychwanegol a drafodwyd uchod cytunwyd i godi'r Praesept i £15,000 ar gyfer 2025-26. Byddai hyn yn sicrhau fod digon o arian ar gael ar gyfer unrhyw wariant hanfodol, i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn.**

<u>d) Taliadau – cytunwyd i dalu'r canlynol:</u>
i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag)
ii) TWE
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (Gwefan)
iv) ICO
v) Neuadd Bro Derfel – ad-daliad cost y padiau i'r difib
vi) DH Jones (heirio dumper bach)

<u>dd) Cyfraniadau Ariannol</u>
i) Urdd – Apêl Cronfa Cyfle i Bawb, St John Ambulance Cymru ac Ambiwlans Awyr Cymru.
**Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

<u>vii) Materion lleol.</u>
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH CHWEFROR 4YDD YN NEUADD SARNAU.**